

RHAGARWEINIAD

Yng Nghymru, cedwir geifr yn bennaf: i gynhyrchu llaeth, cig neu ffibr (Moher a Chashmir); i'w dangos; neu fel anifeiliaid anwes. Nid oes data dibynadwy ynglŷn â niferoedd geifr yng Nghymru, er bod daliadau yn fwy cyffredin yn y de. Yn y DU yn ei chyfanrwydd, ceir tua 88,000 – 93,000 o eifr, yn cynnwys geifr benyw bridio a ddefnyddir i gynhyrchu llaeth. Cynhyrchu ffibr o eifr yw canolbwynt y daflen hon.

BRIDIAU

Mae geifr angora yn cynhyrchu ffibr moher (gwlan moher a gynhyrchir gan gwningod angora). Mynnod geifr sy'n cynhyrchu ffibr o'r ansawdd gorau (rhyw 20 micron o ran diamedr) ar eu cneifiad cyntaf; dirywio wna ansawdd y ffibr (rhyw 40 micron) wrth iddynt aeddfedu. Fodd bynnag, mae maint y ffibr yn cynyddu o'r cneifiad cyntaf (1-2.5 kg) trwy gneifiadau dilynol (hyd at 9kg yn achos bwch cynhyrchiol). Caiff geifr eu cneifio ddwywaith y flwyddyn, yn y gwanwyn a'r hydref. Fel rheol, caiff rhai o'r stoc fridio eu difa pan fyddant tua 6 oed. Mae cynhyrchion eraill, heblaw moher, yn cynnwys llaeth a chig.

Cashmir yw'r isgot fain a gwerthfawr a geir, i wahanol raddau, ar yr holl eifr ac eithrio'r angora. Caiff ei chywain trwy gribo, er bod modd hefyd ei chneifio. Mae geifr gwyllt yn cynhyrchu meintiau bychain (50g) o gashmir uchel ei ansawdd (16 micron neu lai). Fodd bynnag, yn yr Alban, mae rhaglenni bridio arbenigol wedi arwain at gynnydd yn yr ansawdd a gynhyrchir (300g neu fwy). Ar hyn o bryd, ceir 50 o gynhyrchwyr yn y DU, gyda 2,500 o eifr. Byddai angen i'r DU fod â geifre fridio o ryw 2 filiwn er mwyn bod yn hunan-gynhaliol o ran cynnyrch Cashmir.

Y FARCHNAD

Bernir fod moher yn ffibr moethus sy'n feddal ac yn ysgafn ond, er hynny, yn wydn. Fodd bynnag, mae'r diwydiant ffasiwn yn effeithio ar y farchnad ar gyfer moher, ac mae prisiau trwy'r byd yn anwadal iawn. Mae llawer o alw am wisgoedd o gashmir, yn arbennig yng Ngorllewin Ewrop, UDA a Japan, ac nid yw tueddiadau ym myd ffasiwn yn cael cymaint â hynny o effaith arno. O ganlyniad, mae pris chashmir yn fwy sefydlog na phris moher.

Mewnforion sy'n ateb llawer o'r galw yn y DU am ffibr uchel ei werth. Ceir llawer o bosibiliadau o ran defnyddio ffibr cartref yn lle mewnfurion, ar yr amod ei fod o ansawdd masnachol digonol a bod yr ansawdd yn gyson â'r hyn y mae'r farchnad yn gofyn amdano. Ar hyn o bryd, mae Prydain yn prosesu 60% o foher y byd, y mae bron y cyfan ohono wedi'i fewnfurio. Ar hyn o bryd, rhyw 25 o dunelli metrig a gynhyrchir ym Mhrydain, y caiff bron i 10 tunnell fetrig ohono eu defnyddio gan gynhyrchwyr neu ei werthu i droellwyr cartref. Mae'r Alban yn prosesu mwy na 1,000 o dunelli metrig o gashmir mewnfuriedig (60% o gynnyrch y byd) bob blwyddyn.

GOFYNION

Ceir nifer o fentrau amgen ar gyfer cynhyrchu ffibr da byw a allai ddefnyddio'r adnoddau a geir ar hyn o bryd ar ffermydd, megis ffensys ac adeiladau, a defnyddio'r medrau gwaith a geir o fentrau eraill sy'n ymwneud â chynnyrch da byw.

Gellir cadw geifr angora ar lefelau cyffelyb i famogiaid ar dir pori cyfatebol, h.y. ar laswelltir wedi'i wella, gellid cael rhyw 10 o eifr benyw ynghyd â dilynwyr ar bob ha. Mae angen safon uchel o ffensio. Mae gwifren drydanol atred unigol ar ffens a geir eisoes yn fanteisiol.

Mae angen adeilad yn y gaeaf, a lloches gae yn yr haf. Mae hyn yn arbennig o bwysig adeg bwrw myn ar ôl cneifio. Mae geifr yn dechrau bridio tua dechrau'r hydref, wrth i'r lleihad mewn golau dydd sbarduno cychwyn yr estrws. Ar gyfartaledd, bydd un bwch yn gwasanaethu 25 o eifr. Mae beichiogrwydd yn para am ryw 150 o ddiwrnodau, gyda 50% o'r geifr, ar gyfartaledd, yn cario efeilliaid.



Ffig 1: Gafr Angora



Ffig 2: Geifr a fridir ar gyfer cashmir

IECHYD

Mae geifr yn gofyn am safon uchel o hwsmonaeth, felly mae'n bosibl y bydd angen mwy o waith arnynt. Mae problemau iechyd y mae geifr yn dioddef ganddynt yn debyg i'r rhai a gaiff defaid. Dylid bob amser geisio cymorth proffesiynol yng nghyswllt iechyd geifroedd. Mae llyngyr, yn cynnwys ymwrthedd rhag llyngyr; clefydau clostridiol, tetanus, clwy'r traed a charnau wedi gordyfu yn feysydd penodol i'w monitro mewn geifr.

COSTAU

Bydd costau cychwynnol cynhyrchu moher yn dibynnu ar ansawdd yr anifail. £50 yw pris cyfartalog geifr benyw, a £100 yw pris bwch. Bydd anifeiliaid a brynr o gynllun cyfeirio'r *British Angora Goat Sire* yn ddrutach, ond bydd eu cnu o ansawdd meinach. Argymhellir aelodaeth o British Mohair Marketing, sydd ar hyn o bryd yn costio £30. Bydd prisiau geifr Cashmir yn dibynnu ar ansawdd yr anifail, a ph'un a fuont yn rhan o raglen fridio er gwella ffibr neu beidio. Mae prisiau cyfartalog geifr dof / gwyllt rhwng £20 - £50, tra bo prisiau geifr o raglenni bridio rhwng £40 - £70 yr anifail. Gall geifr cashmir mewnfriedig gostio cymaint â £180 ar gyfer gafr a £250 ar gyfer bwch.

Gellir disgwyl i gostau newidiol ar gyfer uned o 100 o eifr bridio fod tua £4,000 y flwyddyn. Gall costau meddygol a meddyginiaethol fod yn uwch mewn uned o eifr nag mewn uned o ddefaid. Mae cneifio hefyd yn ddrutach. Fodd bynnag, gall costau newidiol stoc nad yw'n bridio, megis gweddrod (gwrywod wedi'u disbaddu) fod dipyn is, sef tua £450-£800 ar gyfer pob 100 o weddrod.

REFENIW

Mae'r adenillion o uned angora yn dibynnu ar brisiau'r farchnad fyd-eang am angora, a gallant newid o flwyddyn i flwyddyn. Argymhellir fod rhywun sy'n ystyried mynd i fyd cynhyrchu yn gwirio'r pris presennol a phrisiau diweddar gyda British Mohair Marketing. Ceir enghraifft ddiweddar o adenillion yn Nhabl 1. Os bydd y cynhyrchydd yn prosesu'r ffibr ar lefel sylfaenol ac eilaidd, gall hynny ychwanegu at ei werth.

Tabl 1: Enghreifftiau o gynnyrch ac o brisiau diweddar am foher

Oed yr Afr	Cynnyrch (kg)	Pris y ffibr (£/kg)	Gwerth y cneifiad blynyddol (£)
Myn gafr	~ 3.5	5.50	19.25
Ifanc	~ 5.0	3.25	16.25
Oedolyn	~ 6.0	1.65	9.90

Mae prisiau ffibr cashmir dipyn uwch na phrisiau moher; fodd bynnag, mae'r cynnyrch yn llawer llai. Ceir enghraifft ddiweddar o adenillion yn Nhabl 2.

Tabl 2: Enghreifftiau o gynnyrch ac o brisiau diweddar am gashmir

Diamedr y ffibr	Cynnyrch (kg)	Pris y ffibr (£/kg)	Gwerth (£)
< 16.5 micron	0.03 – 0.05	90	2.70 – 4.50
16.5 – 18.5 micron	0.1 – 0.2	70	7.00 – 14.00

GOFYNION CYFREITHIOL

Rhaid cadw cofnodion ar symudiadau stoc. Yn ôl y ddeddfwriaeth bresennol, mae angen tagio clustiau geifr neu eu tatŵo. Rhaid ateb y gofynion o ran lles anifeiliaid.

Y CAMAU NESAF

Archwilio sefyllfa ariannol y busnes a'r adnoddau sydd ar gael, megis gweithwyr, adeiladau a ffensys.

Cysylltu â'r cwmnïau cydweithredol neu'r cymdeithasau perthnasol.

Ymchwil i'r farchnad – archwilio'r marchnadoedd ac ymweld â chwmnïau sydd wedi'u sefydlu, lle bo modd.

Mae prisiau ffibr yn dibynnu ar brisiau byd-eang, a gallant fod yn gyfnewidiol iawn.

CYSYLLTIADAU

British Angora Goat Society – www.britishangoragoats.org.uk

British Mohair Marketing - E-bost: secretary@angoragoat.fsnet.co.uk

Scottish Cashmere Association www.cashmere-scotland.co.uk